Hysbysiad Preifatrwydd

Cyflwyniad

Mae ALS Training wedi ymrwymo i ddiogelu a pharchu eich preifatrwydd ac rydym yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016 (GDPR).

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn nodi ar ba sail y bydd unrhyw ddata personol a gasglwn gennych chi, neu a roddwch i ni, yn cael ei brosesu gennym ni. Darllenwch y canlynol yn ofalus i ddeall ein barn a'n harferion ynglŷn â'ch data personol a sut y byddwn yn ei drin.

Mae'r rheolau canlynol ar brosesu data personol wedi'u nodi yn y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (y "GDPR")

Diffiniadau

Rheolydd data - Rheolydd sy'n pennu dibenion a dulliau prosesu data personol.

Prosesydd data - Prosesydd sy'n gyfrifol am brosesu data personol ar ran rheolydd.

Testun y data – Person naturiol

Categorïau data: Data personol a chategorïau arbennig o ddata personol

Data personol - Mae'r GDPR yn berthnasol i 'ddata personol' sy'n golygu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson adnabyddadwy y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn benodol drwy gyfeirio at ddynodwr.

Data personol categorïau arbennig - Mae'r GDPR yn cyfeirio at ddata personol sensitif fel 'categorïau arbennig o ddata personol'. Mae'r categorïau arbennig yn cynnwys data genetig yn benodol, a data biometrig lle caiff ei brosesu i adnabod unigolyn yn unigryw. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys tarddiad hiliol ac ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, data iechyd, aelodaeth o undebau llafur, barn wleidyddol a chredoau crefyddol neu athronyddol.

Prosesu - yw unrhyw weithrediad neu set o weithrediadau a gyflawnir ar ddata personol neu ar setiau o ddata personol, p'un a yw hynny drwy ddulliau awtomataidd ai peidio.

Trydydd parti - yw person naturiol neu gyfreithiol, awdurdod cyhoeddus, asiantaeth neu gorff ar wahân i destun y data, y rheolydd, y prosesydd a'r personau sydd, o dan awdurdod uniongyrchol y rheolydd neu'r prosesydd, wedi'u hawdurdodi i brosesu data personol.

Sut rydym ni'n defnyddio'r data rydym yn ei gasglu oddi wrthych chi

ALS Training Ltd fydd y Rheolydd Data ar gyfer y wybodaeth adeg ei chasglu. Rydym yn prosesu'r data personol yr ydych yn ei ddarparu i ni er mwyn darparu'r rhaglen ddysgu a ariennir yr ydych ar fin cofrestru arni. Mae cymryd rhan yn y rhaglen hyfforddi hon a ariennir yn dibynnu arnoch chi'n darparu data personol. Bydd y data a roddwch i ni, lle bo hynny'n berthnasol, yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru (rheolydd data ar gyfer dysgwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru) i gyflawni ei dyletswydd gyhoeddus i weinyddu a monitro'r defnydd o'i chronfeydd ariannol.

Bydd y data a roddwch i ni, lle bo hynny'n berthnasol, yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i gyflawni ei dyletswydd gyhoeddus i weinyddu a monitro'r defnydd o'i chronfeydd ariannol. Efallai y byddwn hefyd yn defnyddio'r data personol a roddwch i ni yn y ffyrdd canlynol:

- Cefnogi eich dysgu, trefnu apwyntiadau a darparu adborth ar gynnydd
- Monitro ac adrodd ar eich cynnydd
- Asesu ac adrodd ar ansawdd ein gwasanaethau
- Darparu gofal bugeiliol a diogelu priodol
- Cydymffurfio â'r gyfraith ac unrhyw oblygiadau cyfreithiol y gallem ni fod yn ddarostyngedig iddynt

Gan gyfeirio at y categorïau o ddata personol a ddisgrifir yn yr adran ddiffiniadau, rydym yn prosesu'r categorïau canlynol o'ch data;

- Enw
- Dyddiad Geni
- Cyfeiriad
- Cod Post
- Rhif Yswiriant Gwladol
- Rhif ffôn/ffôn symudol
- Manylion banc (penodol i raglen)
- Rhyw
- Cyfenw yn 16 oed
- Hunaniaeth genedlaethol
- Yr ysgol ddiwethaf i chi ei mynychu
- Y flwyddyn y gadawoch yr ysgol
- P'un ai a ydych chi'n weithiwr mudol
- Dangosydd anabledd neu anhawster dysgu
- Dynodwr dysgwr unigryw (a grëwyd gan Lywodraeth Cymru)
- Rhif adnabod dysgwr (a grëwyd gan eich darparwr dysgu)
- Rhif dysgwr unigryw (a grëwyd gan y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu)
- Rydym hefyd yn casglu tystiolaeth sain neu glyweledol, lle y bo'r angen, ar gyfer gofynion sefydliadau dyfarnu a chymhwysterau

Hefyd, mae data amdanoch a ddiffinnir fel **data categori arbennig.** Mae darparu'r data hwn yn ddewisol, a bydd yn cynnwys;

- Ethnigrwydd
- Math o anabledd
- Cyflwr iechyd

Yn ogystal â hyn, os yw eich rhaglen yn cael ei chefnogi gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), gofynnir i chi ddarparu tystiolaeth ychwanegol fel pasbort, slip cyflog diweddar neu dystysgrif cymhwyster. Bydd copi o'r dystiolaeth hon yn cael ei gadw gan ALS Training LTD at ddibenion archwilio ESF, bydd sampl yn cael ei hanfon at Lywodraeth Cymru.

Ni fyddwn yn rhannu gwybodaeth amdanoch chi gyda thrydydd partïon heb eich caniatâd oni bai bod y gyfraith yn caniatáu neu'n gofyn i ni wneud hynny. Efallai y bydd yn ofynnol i ni rannu rhywfaint o'ch data personol gyda:

- Llywodraeth Cymru
- Estyn
- Sefydliadau dyfarnu
- Awdurdodau Lleol
- Gyrfa Cymru/Cymru'n Gweithio
- Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol

Efallai y byddwn yn rhannu'ch gwybodaeth am resymau cyfreithiol os credwn yn ddidwyll fod angen mynediad at, defnyddio, cadw neu datgelu'r wybodaeth i:

- Fodloni ceisiadau gan gyrff y llywodraeth, asiantaethau gorfodi'r gyfraith mewn perthynas ag unrhyw ymchwiliad i helpu canfod ac atal unrhyw weithgarwch anghyfreithlon
- Canfod neu atal materion technegol, diogelwch neu dwyll
- Cynorthwyo trydydd partïon eraill mewn achosion cyfreithiol

Mae'r sail gyfreithlon i ni brosesu eich data o dan y rheoliadau diogelu data cyffredinol yn dod o dan y canlynol:

- Mae prosesu yn angenrheidiol er budd y cyhoedd
- Mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni contract

Mae ALS Training Ltd yn defnyddio eich enw, eich cyfeiriad e-bost a'ch rhif ffôn/ffôn symudol i gynnal cyswllt a threfnu apwyntiadau gyda chi drwy gydol eich prentisiaeth/cymhwyster fel sy'n ofynnol gan gyrff ariannu a sefydliadau dyfarnu. Byddwn yn defnyddio'r manylion hyn i roi eich cyfrif eportfolio ar-lein i chi (e.e. OneFile) fel rhan o'ch rhaglen Brentisiaeth.

Rydym yn cadw'ch data personol am gyfnod nad yw'n hwy nag sy'n rhesymol angenrheidiol er mwyn cyflawni ein gofynion cytundebol gyda chyrff ariannu a sefydliadau dyfarnu.

I gael mwy o wybodaeth, mae'r ddolen i Hysbysiad Preifatrwydd Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru Llywodraeth Cymru isod;

Hysbysiad Preifatrwydd Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru

Cyfnodau cadw

Dysgu seiliedig ar waith (e.e. Prentisiaethau/ dysgu galwedigaethol yn y gweithle) - bydd eich data'n cael ei ddileu 10 mlynedd ar ôl diwedd cyfnod y contract.

Sefydliad dyfarnu (data cymwysterau) - bydd eich data'n cael ei ddileu ar ôl cyfnod o chwe blynedd o ddiwedd eich rhaglen ddysgu oni bai bod yr amserlenni a bennir yn wahanol o ran gofynion sefydliadau dyfarnu a chyrff proffesiynol (cewch ddolenni i wefannau sefydliadau dyfarnu isod i gael mwy o wybodaeth).

Eich hawliau a’ch data personol

- Yr hawl i ofyn am gopi o'r data personol sydd gennym amdanoch
- Yr hawl i ofyn i ni gywiro unrhyw ddata personol os darganfyddir ei fod yn anghywir neu'n hen
- Mae'r hawl i ofyn i ni ddileu eich data personol (mewn rhai amgylchiadau)
- Yr hawl i dynnu eich cydsyniad yn ôl i'r prosesu ar unrhyw adeg, lle cydsyniad oedd y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu'r data
- Yr hawl i ofyn i ni ddarparu eich data personol i chi a, lle bo'n bosibl, i drosglwyddo'r data hwnnw'n uniongyrchol i reolydd data arall
- Yr hawl, lle ceir anghydfod mewn perthynas â chywirdeb neu brosesu eich data personol, i chi ofyn i ni osod cyfyngiad ar brosesu pellach
- Yr hawl i wrthwynebu prosesu data personol (lle y bo'n berthnasol h.y. lle mae prosesu wedi’i seilio ar fuddiannau cyfreithlon neu gyflawni tasg er budd y cyhoedd/arfer awdurdod swyddogol), marchnata a phrosesu uniongyrchol at ddibenion ymchwil ac ystadegau gwyddonol/hanesyddol
- Cyflwyno cwyn i swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

Sefydliadau Dyfarnu

Gallwch defnyddio’r dolenni isod i ddarganfod mwy am sut mae sefydliadau dyfarnu yn rheoli a defnyddio eich data pan fyddwch wedi cofrestru ar raglen gyda nhw;

Agored Cymru - http://www.agored.cymru/Learners/Privacy-Statement

ACW - http://fisss.org/quality-assurance/data-use-and-management-policy/

ILM - https://www.i-l-m.com/privacy/learnerpersonaldata

City and Guilds - https://www.cityandguilds.com/help/privacy-statement

Pearson - https://www.pearson.com/uk/pearson-privacy-and-you/privacy-policy.html

Cache - https://www.cache.org.uk/notices/privacy-notice/

AAT - https://www.aat.org.uk/get-myaat/privacy-policy

IMI - https://www.theimi.org.uk/agenda/privacy-policy

EAL - http://eal.org.uk/privacy-policy

Highfields - https://www.highfieldproducts.com/company/privacy.php

CII - https://www.cii.co.uk/about-us/data-protection-and-privacy-statement/

CMI - https://www.managers.org.uk/about-cmi/governance/policies/data-privacy/

Prosesu pellach

Os byddwn eisiau defnyddio eich data personol at ddiben newydd, nad yw wedi'i gynnwys yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn, yna byddwn yn rhoi hysbysiad newydd i chi yn esbonio'r defnydd newydd hwn cyn dechrau'r prosesu a nodi'r dibenion a'r amodau prosesu perthnasol.

Newidiadau i'n polisi preifatrwydd

Bydd unrhyw newidiadau y gallem eu gwneud i'n polisi preifatrwydd yn y dyfodol yn cael eu rhoi ar wefan y cwmni. Gwiriwch yn aml i weld unrhyw ddiweddariadau neu newidiadau i'n polisi preifatrwydd.

Sut i wneud cwyn

I arfer yr holl hawliau, ymholiadau neu gwynion perthnasol, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data ein cwmni yn gyntaf. Defnyddiwch y wybodaeth gyswllt a ddarperir isod;

Rheolydd Data
ALS Training Ltd
Ocean Park House
East Tyndall Street
Caerdydd
CF24 5ET
02922 677020
info@alstraining.org.uk

I gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gweler y manylion isod;

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
02920 678400 – llinell gymorth Cymru, neu 0303 123 1113 – llinell gymorth y DU.
https://ico.org.uk